# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 7

CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED

## PENNOD 6

PWERAU CYNGHORAU CYMUNED I HYBU LLESIANT

### 127 Addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad os ydynt o'r farn bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro'r cynghorau cymuned rhag arfer eu pwerau o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (hybu llesiant).

(2) Caniateir arfer y pŵer o dan is-adran (1)—

(a) mewn perthynas â phob cyngor cymuned,

(b) mewn perthynas â chynghorau cymuned neilltuol, neu

(c) mewn perthynas â disgrifiadau neilltuol o gyngor cymuned.

(3) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud addasiadau i ddeddfiad am gyfnod neilltuol.